Telyn i'r Wladfa

canolfan gerdd William Mathias

Yn 2015, byddwn yn dathlu canmlwyddiant-a-hanner sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia. Cludodd Michael D. Jones delyn deires Gymreig i'r Wladfa yn y 19eg ganrif, ac fe'i cedwir yn Amgueddfa'r Gaiman, Patagonia. Mae'n dangos pwysigrwydd canu'r delyn i'r sefydlwyr cynnar.

Mae cynllun ar y gweill i godi arian i yrru dwy delyn newydd i'r Wladfa i roi hwb ymarferol i gadw'r traddodiad cerddorol yn fyw yno.

Y delynores, Elinor Bennett sydd yn trefnu'r prosiect gyda chefnogaeth staff a chyfarwyddwyr Canolfan Gerdd William Mathias. Mae'n apelio at bawb a gafodd wersi telyn yn y gorffennol – a phawb sy'n awyddus i gefnogi'r Wladfa, i gyfrannu fel y gallent. Y gobaith yw cyrraedd y targed o £10,000 erbyn Chwefror 1af, 2015. I lansio'r apêl, addawodd cwmni telynau o Ffrainc, Les Harpes Camac, roi unrhyw delyn o'u catalog am hanner y pris os gall yr apêl godi'r gweddill o'r arian.

Meddai Elinor : "Mi fyddai'n wych petaem yn gallu prynu telynau newydd i alluogi plant i gynnal ein traddodiadau cerddorol yn y Wladfa. Bum yn breuddwydio ers rhai blynyddoedd am sicrhau telynau modern o ansawdd uchel i blant Patagonia, a theimlaf mai wrth inni ddathlu penblwydd Y Wladfa yn gant-a-hanner yw'r amser addas i droi'r freuddwyd yn realiti. Mae dwy delynores yn cynnig gwersi telyn ym Mhatagonia, ond mae'n dasg anodd i sicrhau offerynnau addas i'w disgyblion.

"Yn ogystal a bod yn weithred symbolaidd bydd hyn yn ffordd ymarferol iawn i gefnogi'r gwaith anhygoel a wneir gan lawer o unigolion yn y Wladfa i gadw'r diwylliant Cymreig yn fyw. GYDA'N GILYDD, FE ALLWN!"

mathiasfestivals.com/patagonia

Sut i roddi?	
Dros y we	**Drwy'r post**
Gallwch roddi ar-lein drwy ddefnyddio BT MyDonate. Cyfarwyddiadau ar ein gwefan: **mathiasfestivals.com/patagonia**	Dychwelwch y bonyn isod gyda siec / arian parod i: Mr Gwydion Davies, Canolfan Gerdd William Mathias, Galeri, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SQ Sieciau'n daladwy i 'CGWM'

✂.....

Hoffwn gefnogi'r apêl trwy gyfrannu'r swm o: **CGWM - Telyn i'r Wladfa**

£10..... £25..... £50 ..... £150..... Arall.....

☐ **Rhodd Cymorth** **(Rwy'n drethdalwr yn y DU ac yn talu treth o faint cyfartal neu fwy na'r dreth yr adenilla'r elusen hon. Rwyf yn dymuno i'r elusen hawlio'r dreth ar y rhodd yma ac unrhyw rhoddion eraill gennyf yn y dyfodol. Ticiwch)**

Enw..... Cyfeiriad.....

..... Cod Post.....

Ebost..... Ffôn.....